Gwerthusiad o'r Rhaglen Beilot Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn Sir Benfro

Crynodeb Gweithredol

Dr Louise Roberts, Athro Dawn Mannay, Sylvia Stevenson, Emily Baker ac Ffion Roberts

Gorffennaf 2026

KPMG Foundation

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

The Fostering Network
Y Rhwydwaith Maethu

CASCADE

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Partneriaeth Seilwaith CASCADE

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

SAIL DATABANK

Cardiff University Prifysgol Caerdydd
Centre for Trials Research
Canolfan Ymchwil Treialon

Cardiff University Prifysgol Caerdydd
School of Psychology
Ysgol Seicoleg

Mae ein harbenigedd yn dod â phartneriaeth neilltuol ynghyd. CASCADE yw'r brif ganolfan ar gyfer ymchwil werthusol ym maes gofal cymdeithasol plant yn y DU. Mae'n rhan o Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol a Gofodol (SOSSS), canolfan ragoriaeth flaenllaw yn y gwyddorau cymdeithasol ac ymchwil addysg sydd ag arbenigedd penodol mewn dulliau meintiol. Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR) yn arweinydd cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer treialon a dulliau cysylltiedig. Roedd yr Ysgol Seicoleg yn 2il am ansawdd ymchwil yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf, ac mae SAIL yn cynnig cysylltiadau data o'r radd flaenaf. Gyda'n gilydd, credwn y gallwn greu newid sylweddol yn ansawdd a defnydd ymchwil gofal cymdeithasol plant nad oes ei debyg yn y DU. Yn benodol, gallwn ddarparu treialon a gwerthusiadau o ansawdd uchel; cysylltu data i ddeall y canlyniadau tymor hir; a chynnwys defnyddwyr y gwasanaeth (ein cyhoedd) ym mhob rhan o'n hymchwil. Rydym am i'r tair elfen hyn ryngweithio â'i gilydd i gynhyrchu ymchwil o ansawdd heb ei hail.

Cynnwys

Crynodeb 3

Cyflwyniad a Chefndir 4

Trosolwg o'r Gwerthusiad 4

Canfyddiadau 5

Casgliad 9

Awduron a Chyfranwyr 12

Crynodeb

Canolbwyntiodd y gwerthusiad hwn ar weithredu'r rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yng Nghymru, cynllun a gefnogodd deuluoedd ar ffiniau gofal, gyda'r nod o leihau nifer y plant sy'n dod i ofal a chefnogi cysylltiadau a chapasiti teuluoedd. Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn dau gam i sicrhau y byddai'n cynnwys y ddau safle gweithredu ar gyfer y rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yng Nghymru, sef Sir Benfro a Phowys. Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn canolbwyntio ar y cynllun peilot Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn Sir Benfro. Darperir rhagor o fanylion am y gwerthusiad a'i ganfyddiadau yn yr adroddiad llawn (Mannay et al. 2026).

Yn ystod y cyfnod gwerthuso, llwyddodd 12 o deuluoedd (23 o blant) i gamu'n ôl o'r gwasanaeth, wrth gymryd rhan am gyfnod o 14 mis ar gyfartaledd. Ymhlith y teuluoedd a ymgysylltodd â'r rhaglen yn Sir Benfro, cyflawnodd y gwasanaeth gyfradd llwyddiant o 95%, gyda 22 o'r 23 o blant yn cael cefnogaeth i gynnal trefniadau gofal gartref. Ar ddiwedd y cyfnod gwerthuso, roedd y gwasanaeth yn cefnogi 11 o deuluoedd (26 o blant), gyda phum teulu ychwanegol yn aros am gael eu dyrannu. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys plant, rhieni a Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd, yn ogystal â staff sy'n gweithio'n uniongyrchol i'r Rhwydwaith Maethu yng Nghymru, gweithwyr cymdeithasol ac Uwch-arweinwyr Awdurdodau Lleol a oedd yn rhan o broses comisiynu, trefnu a chyflwyno'r rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl.

Mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd yn y gwerthusiad hwn yn awgrymu bod cyfuniad o holl elfennau'r cynllun peilot wedi gweithio'n effeithiol i gefnogi teuluoedd sydd wedi meithrin capasiti, sgiliau a gwybodaeth, ac wedi adeiladu rhwydweithiau cefnogol. Cyfrannodd hyn at berthnasoedd teuluol sefydlog. Mae profiadau cadarnhaol y rhai a gymerodd ran, ochr yn ochr â llwyddiant y rhaglen o ran cefnogi plant i aros yn ddiogel yn eu teuluoedd, neu i ddychwelyd atynt, yn darparu tystiolaeth bwysig i gefnogi datblygiad parhaus a gweithrediad ehangach y cynllun Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yng Nghymru.

Beth yr ydym yn ei wneud?

- Cynhyrchu tystiolaeth ymchwil sylfaenol a gydnabyddir yn rhyngwladol
- Gwneud ein hymchwil yn hygyrch i bawb, gan gynnwys: defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol a llunwyr polisïau
- Datblygu'r capasiti yng Nghymru i ymchwilio i ofal cymdeithasol trwy roi cyfleoedd i ymchwilwyr, boed yn israddedigion neu'n uwch ymchwilwyr
- Ymgysylltu ag ystod o gydweithredwyr yn y gwaith ymchwil, gan gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr, llunwyr polisïau a darparwyr gofal cymdeithasol yn y sector cyhoeddus a phreifat, a'r trydydd sector

Sut yr ydym yn gwneud hyn?

- Yr unig ganolfan o'i bath yng Nghymru – hyrwyddo tystiolaeth, gwella canlyniadau
- Ystod amrywiol o ddulliau ymchwil – ethnograffeg, cyfweliadau a grwpiau ffocws, cronfeydd data carfanau ac arferol, lledarbrofion, hap-dreialon dan reolaeth ac adolygiadau (cyflym, systematig a realistig)
- Cysylltiadau cryf â pholisi ac ymarfer – rhieni a phlant, gweithwyr cymdeithasol ac uwch-reolwyr, llywodraeth (Cymru a'r DU) a'r trydydd sector

Cyflwyniad a Chefndir

Mae gofal cymdeithasol plant yng Nghymru yn wynebu 'argyfwng gofal' a nodweddir gan nifer cynyddol o blant sy'n dod i ofal, pwysau ar ddarpariaeth gofal, prinder lleoliadau addas, anawsterau wrth recriwtio a chadw gofalwyr maeth, a galwadau cynyddol ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r heriau hyn yn tanlinellu'r angen am ddulliau ataliol a rhai ar ffiniau gofal sy'n cynorthwyo plant i aros yn ddiogel yn eu teuluoedd lle bynnag y bo modd.

Mae Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn rhaglen sy'n cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i deuluoedd i atal problemau rhag gwaethygu, gwella perthnasoedd a meithrin rhwydweithiau cymorth.

Mae teuluoedd yn cael eu paru â Gofalwr Maeth Cymorth i Deuluoedd sy'n darparu gwasanaeth mentora a chymorth ymarferol i rieni, yn ogystal â seibiannau byr i blant a phobl ifanc. Darperir cymorth ehangach dros gyfnod o 12–15 mis, sy'n cynnwys rhaglenni hyfforddi rhieni, grwpiau plant a gweithgareddau teuluol yn y gymuned.

Yn dilyn gwerthusiadau cadarnhaol o'r ymyrraeth yng Ngogledd Iwerddon, darparodd Llywodraeth Cymru £879,000 i'r Rhwydwaith Maethu yng Nghymru i beilota'r rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Benfro a Phowys dros dair blynedd (Llywodraeth Cymru, 2025). Cafodd y cynlluniau peilot yn Sir Benfro ac ym Mhowys hefyd eu cefnogi gan Sefydliad KPMG a roddodd grant o £450,000.

Comisiynwyd CASCADE, y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant ym Mhrifysgol Caerdydd, gan y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru i werthuso'r cynlluniau peilot Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yng Nghymru. Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r adroddiad gwerthuso cyntaf, sy'n canolbwyntio ar y gwaith o weithredu'r rhaglen yn Sir Benfro.

Trosolwg o'r Gwerthusiad

Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2026, ac archwiliodd weithrediad y rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn Sir Benfro, gan nodi meysydd o arfer da a chyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach. Ceisiodd gynnwys profiadau a safbwyntiau'r rhai a oedd yn rhan o'r gwaith o gychwyn a darparu'r rhaglen, ac ymgysylltu â hi, ac archwilio'r modd y cyfrannodd yr ymyrraeth at y canlyniadau a fwriadwyd iddi. Roedd y rhain yn cynnwys atal neu leihau nifer y plant sy'n cael gofal, meithrin gwybodaeth, sgiliau a hyder teuluoedd, a chryfhau perthnasoedd a rhwydweithiau cymorth.

Roedd dulliau'r gwerthusiad yn cynnwys cyfweliadau ansoddol â saith rhiant (P), gan gynnwys cyfweliadau dilynol â thri rhiant i archwilio newidiadau yn eu profiadau dros amser, pump o Ofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd (FSFC), dau weithiwr cymdeithasol (SW), dau aelod o staff y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru (TFNW), a dau Uwch-arweinydd Awdurdod Lleol (LASL). Roedd wyth o blant wedi cymryd rhan mewn gweithdai creadigol a gynlluniwyd i archwilio eu profiadau o'r rhaglen. At hynny, cafwyd arsylwadau o Ddiwrnodau gyda'r Teulu, Grŵp Meithrin a Chynllun Haf i Blant. Cafwyd hefyd ddadansoddiad o adborth arferol a gasglwyd gan y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru yn dilyn sesiynau hyfforddi, a rhoddodd hyn fewnwelediad pellach i ddarpariaeth ac effaith ganfyddedig y gwasanaeth.

Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol i'r gwaith ymchwil hwn gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd. Cynhaliwyd yr ymchwil gan ymchwilwyr profiadol a oedd yn ymwybodol o'r sensitifrwydd sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth, a bu iddynt gymryd gofal i sicrhau bod cyfranogwyr yn ymgysylltu mewn modd moesegol a sensitif trwy gydol y broses ymchwil.

Canfyddiadau

Archwiliodd y gwerthusiad weithrediad y cynllun peilot Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn Sir Benfro, gan asesu'r gwaith o sefydlu'r gwasanaeth, y gefnogaeth berthynol ac ymarferol a ddarperir i deuluoedd, y gweithgareddau a gyflwynir i blant, rhieni a theuluoedd, a'r hyfforddiant magu plant a ffurfiodd elfennau allweddol y rhaglen.

Cychwyn y rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn Sir Benfro

Disgrifiodd y cyfranogwyr sut yr oedd y cyfle i beilota ymyrraeth seiliedig ar dystiolaeth, gyda chefnogaeth cyllid pwrpasol Llywodraeth Cymru a chyllid gan Sefydliad KPMG, wedi galluogi Sir Benfro i weithredu'r rhaglen. Fodd bynnag, roedd y gwerthusiad hefyd wedi amlygu'r heriau o gyflwyno gwasanaeth ataliol newydd mewn system gofal cymdeithasol plant sydd eisoes dan bwysau. Roedd y rhain yn cynnwys prinder gofalwyr maeth a phwysau o ran capasiti'r gweithlu yn yr Awdurdod Lleol.

Roedd goresgyn yr heriau hyn yn cynnwys recriwtio gofalwyr maeth profiadol yr oedd eu gwerthoedd yn cyd-fynd â nodau ac ethos y rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl. Disgrifiodd rhai gofalwyr eu bod wedi ymgymryd â'r rôl oherwydd eu bod am barhau i gefnogi plant a theuluoedd ar ôl camu'n ôl o faethu'n llawn-amser. Galluogodd hyn i'r Awdurdod Lleol gadw eu sgiliau a'u profiad nhw. Roedd brwdfrydedd ac enw da'r gweithiwr cymdeithasol arweiniol hefyd yn annog gofalwyr i gymryd rhan.

Roedd model partneriaeth Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn galluogi cyfrifoldebau i gael eu rhannu â'r Rhwydwaith Maethu yng Nghymru. Eto i gyd, roedd gweithredu llwyddiannus yn dibynnu ar barodrwydd gweithwyr proffesiynol a oedd eisoes dan bwysau i fuddsoddi amser ac ymdrech ychwanegol yn y gwaith o sefydlu'r rhaglen. Roedd yr ymrwymiad hwn wedi'i ategu gan gred gyffredin yng ngwerth cefnogaeth deuluol, a'r manteision canfyddedig (unigol ac economaidd) o atal chwalfeydd teuluoedd.

> ***"Er bod pobl yn flinedig ac wedi'u gorweithio, ac, wyddoch chi, o dan bwysau enfawr, roeddwn i hefyd yn deall bod gan bobl y capasiti o hyd i gyffroi ynglŷn â rhywbeth, a bod gwerthoedd gwasanaethau pobl yn golygu gwneud y peth iawn i blant a theuluoedd." (LASL1)***

Er iddo gael ei lywio gan raglen Gogledd Iwerddon, roedd hyblygrwydd yn hanfodol i sicrhau y gellid gweithredu'r cynllun Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn llwyddiannus yng nghyd-destun Sir

Benfro. Cafodd addasiadau eu gwneud er mwyn adlewyrchu natur wledig y sir, capasiti'r gweithlu lleol, ac anghenion y teuluoedd a gymerodd ran. Yn hytrach na lleihau ansawdd y rhaglen, roedd cyfranogwyr yn ystyried yr hyblygrwydd hwn yn gryfder, gan addasu i amgylchiadau lleol wrth gadw egwyddorion perthynol craidd y rhaglen.

Bu i'r gwerthusiad ganfod bod y cynllun Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn gallu cefnogi teuluoedd ag ystod eang o anghenion. Yn aml, roedd mynediad at y gwasanaeth yn cael ei bennu'n llai gan natur yr anawsterau a gyflwynwyd ac yn fwy gan ffactorau, megis parodrwydd teuluoedd i ymgysylltu ac argaeledd partner priodol a oedd yn Ofalwr Maeth Cymorth i Deuluoedd. Fodd bynnag, cafwyd achosion lle ystyriwyd bod atgyfeiriadau'n amhriodol oherwydd bod ar deuluoedd angen ymyriadau arbenigol y tu hwnt i gylch gwaith y rhaglen.

"Mae'n ymwneud â dal teuluoedd ar y pwynt hwnnw lle maen nhw'n barod i wneud y newidiadau hynny, yn mynd i ymgysylltu â nhw, oherwydd y rhai – dw i'n credu – yr ydyn ni'n ei weld sy'n elwa fwyaf o'r rhaglen, ac yn gwneud y newidiadau hynny, yw'r rhai sy'n ymgysylltu â phob elfen ohoni." (TFNW1)

Meithrin rhwydweithiau cymorth

Canfu'r gwerthusiad mai perthnasoedd oedd sylfaen y rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl. Roedd cysondeb, argaeledd a hyblygrwydd y gefnogaeth a ddarparwyd gan Ofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd, ochr yn ochr â gweithwyr cymdeithasol a staff y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru, wedi galluogi perthnasoedd ymddiriedus i ddatblygu ymhlith rhieni a phlant. Cafodd y gwaith perthynol dwys a wnaed gan Ofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd ei gynorthwyo trwy gefnogaeth rheolaidd gan unigolion a chyfoedion.

"Wel, os oes arnom angen cefnogaeth, byddan nhw'n ei chael i ni, oni fyddan nhw ... mae'r bobl sy'n rhedeg y cynllun yn anhygoel, chewch chi mo'u gwell ... maen nhw'n gwneud gwahaniaeth, onid ydyn nhw, ni waeth pa amser o'r dydd ydyw ... Dyw e ddim fel pob swydd, dyw e ddim yn waith 9 tan 5 mewn gwirionedd, ydy e?" (P2)

Darparodd Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd gymorth emosiynol ac ymarferol wedi'i deilwra a oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan rieni. Ochr yn ochr â gwasanaeth mentora a chyngor ar fagu plant, roeddent yn cynnig cefnogaeth emosiynol, eiriolaeth, cymorth i gysylltu â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill, a chymorth ymarferol, gan gynnwys cludiant a mynd gyda rhieni i apwyntiadau.

Mae [FSFC] yn dod yma i'm helpu, ac mae hi [merch] yn cael ei deall ... sy'n beth da oherwydd ei bod hi'n gallu deall ... mae hi'n fy neall i, ac rwy'n dweud wrthi, wyddoch chi, "dyw [merch] ddim yn dda, mae hi wedi cael ei hysgwyd." Hynny i gyd. Ac mae hi'n dweud, "lawn, awn ati i siarad am y peth". Ac yna, mae hi'n egluro, "Dyma beth sydd wedi'i sbarduno, mae'n debyg" ... Ac yna, gallaf ei ffonio hi ac mae hi'n fy nghefnogi i hefyd. Felly, mae hi wastad ar ben arall y ffôn (P6)

Roedd seibiannau byr yn elfen bwysig o'r rhaglen, ond roedd y gwaith o'u cyflwyno yn gofyn am drafodaeth barhaus â theuluoedd ac roedd angen iddynt barhau i ymateb i'w hamgylchiadau, eu hanesion a'u dymuniadau unigol.

Cryfhaodd y rhaglen rwydweithiau cymorth ehangach teuluoedd wrth i rieni feithrin perthnasoedd cefnogol â'i gilydd, a hynny trwy weithgareddau'r cynllun Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl. At hynny, roedd dull hyblyg o ddiweddu cymorth wedi galluogi perthnasoedd ymhlith rhieni, teuluoedd, Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd, gweithwyr cymdeithasol a staff o'r Rhwydwaith Maethu yng Nghymru i barhau ar ôl i gymorth unigoledig rheolaidd hefyd ddod i ben. Roedd mynediad parhaus at ddigwyddiadau, gweithgareddau a hyfforddiant wedi helpu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael cefnogaeth y tu hwnt i'r ymyrraeth ffurfiol.

Archwiliodd y gwerthusiad y defnydd o'r ap For Me fel dull i gefnogi'r gwaith o gyfathrebu a gosod nodau. Er bod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r ap ar gyfer rhannu negeseuon a ffotograffau, a chofnodi cynnydd, roedd yr ymgysylltiad yn gymysg a nodwyd rhwystrau'n ymwneud â thechnoleg a swyddogaeth. Mynegodd rhieni awydd am fwy o gyfleoedd i gysylltu â'i gilydd trwy'r ap, tra bo Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd wedi nodi'r angen am le diogel i gofnodi gwybodaeth sensitif.

Gweithgareddau haf i blant a theuluoedd

Roedd y gwerthusiad wedi canfod bod y gweithgareddau a'r grwpiau, a ddarparwyd trwy'r rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan blant, rhieni a gweithwyr proffesiynol. Er mai dim ond nifer bach o blant a gyfrannodd yn uniongyrchol at y gwerthusiad, roedd y rhai a gymerodd ran yn y Grŵp Meithrin a'r Cynllun Haf i Blant yn cyfleu teimladau cadarnhaol am y sesiynau ac yn siarad am eu hoff weithgareddau, y lluniaeth a ddarparwyd, y perthnasoedd a feithrinwyd ganddynt â chyfoedion a hwyluswyr, a'u tristwch pan ddaeth y Grŵp Meithrin i ben. Dangosodd adborth anuniongyrchol gan y Grŵp Merched fod plant wedi mwynhau'r sesiynau ac wedi gwerthfawrogi cyfleoedd i chwarae ac i drafod eu teimladau.

"Mae'n fy helpu i ddod o hyd i'm teimladau i a pheidio â mynd yn flin am bethau." (Cyfranogwr y Grŵp Merched)

Myfyriodd cyfranogwyr sy'n oedolion yn gadarnhaol hefyd ar y Grŵp Meithrin, gan ddisgrifio gwelliannau yn nealltwriaeth a mynegiant plant, ynghyd â'u gallu i reoleiddio eu hemosiynau. Adroddodd rhieni fod plant yn parhau i ddefnyddio strategaethau ac adnoddau i drafod a rheoleiddio eu hemosiynau, y tu allan i'r sesiynau.

Cafwyd adborth cadarnhaol ar Ddiwrnodau gyda'r Teulu, preswylfeydd a sesiynau llesiant i rieni. Roedd y gweithgareddau hyn yn galluogi teuluoedd i gael mynediad at brofiadau a fyddai wedi bod yn anodd eu cael fel arall, oherwydd pwysau ariannol neu bryderon ynghylch rheoli heriau teuluol mewn lleoliadau newydd. Adroddodd rhieni fod yr amgylchedd cefnogol ac anfeirniadol wedi eu galluogi i deimlo'n gyfforddus wrth gymryd rhan, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a'r profiadau a oedd ar gael i'w plant. Roedd y gweithgareddau hyn wedi creu atgofion teuluol cadarnhaol ac wedi hwyluso cysylltiadau cefnogol ymhlith teuluoedd. Yn yr un modd, roedd y sesiynau llesiant, a ddaeth â rhieni, Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd, gweithwyr cymdeithasol a staff o'r Rhwydwaith Maethu yng Nghymru ynghyd, wedi gwella ymhellach yr ymdeimlad o agosatrwydd a bod yn rhan o gymuned gefnogol.

Bu i'r gwerthusiad ganfod bod rhai rhieni wedi parhau i ymgysylltu â gweithgareddau a brofwyd am y tro cyntaf trwy'r cynllun Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl. Gyda chyllid pwrpasol, roedd y rhaglen hefyd wedi helpu teuluoedd i ddilyn diddordebau, cael mynediad at gymorth a gwneud cysylltiadau yn eu cymunedau lleol. Ystyriwyd y gweithgareddau hyn yn rhan bwysig o ddull ataliol y rhaglen, ac anogwyd y broses o ddatblygu rhwydweithiau cynaliadwy a oedd yn cynnig cyswllt cymdeithasol, cymorth a phrofiadau cyfoethogi ar gyfer rhieni a phlant.

"Mae [Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl] yn sicrhau bod y teulu cyfan fel uned yn cael gofal, a dyma'r grŵp cyntaf o bobl yr ydyn ni wedi bod yn rhan ohonyn nhw sydd wedi sicrhau bod y teulu fel uned yn cael gofal, yn hytrach na, iawn, rydych chi'n cael trafferth gyda'r un plentyn penodol hwn, rydyn ni'n mynd i wneud yr hyn a allwn ni ar ei chyfer. Felly, mae wedi bod yn braf cael fy nghydnabod fel rhiant sy'n cael trafferth neu, wyddoch chi, mae brodyr a chwiorydd yn cael trafferth, neu ... dyw bywyd teuluol ddim bob amser yn wych ... Rwy'n teimlo ein bod ni i gyd yn cael gofal, a bod ein holl emosiynau a'n hanghenion yn cael eu hystyried. Felly, dydyn nhw erioed wedi tynnu sylw at unrhyw un ohonon ni, nac wedi tynnu unrhyw un ohonon ni o sefyllfa dim ond oherwydd mai [un plentyn] yw'r un sydd angen y cymorth i gychwyn. Maen nhw bob amser wedi sicrhau ein bod ni i gyd fel uned yn cael ein cynnwys ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud." (P7)

Rhaglenni hyfforddi rhieni

Roedd rhaglenni hyfforddi rhieni EMBRACE a BOND yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan rieni a Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd. Canolbwyntiodd EMBRACE ar gynorthwyo rhieni i ddeall

emosiynau ac ymddygiad plant, tra bo BOND yn canolbwyntio ar ymlyniad, trawma a datblygiad yr ymennydd i wella dealltwriaeth rhieni o ymddygiad a pherthnasoedd plant.

Roedd cyfleoedd i feithrin perthnasoedd, rhannu profiadau a threulio amser gyda'i gilydd cyn ac ar ôl sesiynau wedi helpu rhieni i deimlo'n gyfforddus wrth gymryd rhan, tra bo mynychu'r rhain gyda'u Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd yn cryfhau'r perthnasoedd cefnogol ymhellach. Roedd y rhieni wedi canmol gwybodaeth, brwdfrydedd a darpariaeth yr hwyluswyr, gan ddisgrifio'r hyfforddiant fel un mwy deniadol, perthnasol ac ymatebol na'r cyrsiau magu plant yr oeddent wedi'u mynychu o'r blaen.

> ***"Dechreuais weithio gyda'r cynllun Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl ar [dyddiad] ac roeddwn i'n meddwl y byddai'n wastraff amser. Dim ond grŵp arall yr ydw i wedi'i wneud fydd e, cymaint o'r rhain, a dim ond diflas fydd e. Ond y tro cyntaf, dyma'r unig grŵp yr ydw i wedi mynd iddo ac wedi dysgu pethau, ond does neb yn barnu. Wyddoch chi, gallwch chi weld eu bod nhw wir yn poeni amdanoch chi a'ch plentyn." (P3)***

Roedd rhieni wedi disgrifio'r hyfforddiant fel un a oedd yn eu helpu i ddeall eu plant yn well, tra bo'r cynnwys wedi'i gyflwyno mewn ffordd a oedd yn sicrhau nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu beio. Yn yr un modd, roedd rhieni a Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd fel ei gilydd wedi disgrifio'r broses o roi'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r hyfforddiant ar waith wrth ymgysylltu â phlant.

> ***"Roeddwn i wir yn meddwl bod y cynllun yn dda y llynedd. Roedd e wedi fy helpu i gyda [plentyn] yn sicr, o ran PACE [Chwarëusrwydd, Derbyniad, Chwilfrydedd ac Empathi] ... Ac yna, rydych chi'n cael adborth gan y rhieni yn dweud ie, roedden ni wedi rhoi cynnig ar hynny, ie, mae hynny'n gweithio. Ac mae hynny'n dda iawn." (FSFC2)***

Casgliad

Mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd yn y gwerthusiad hwn yn gosod Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl fel ymyrraeth ataliol werthfawr sy'n cyfrannu at y gwaith o gadw teuluoedd gyda'i gilydd a'u cynorthwyo.

Yn ystod y cyfnod gwerthuso, llwyddodd 12 o deuluoedd (23 o blant) i gamu'n ôl o'r rhaglen ar ôl cymryd rhan am 14 mis ar gyfartaledd. Ymhlith y teuluoedd a gymerodd ran yn y rhaglen, cyflawnodd y gwasanaeth gyfradd llwyddiant o 95%, gyda 22 o'r 23 o blant yn cael cefnogaeth i gynnal trefniadau gofal gartref. Ar ddiwedd y cyfnod gwerthuso, parhaodd y gwasanaeth i gefnogi 11 teulu arall (26 o blant), gyda phum teulu yn aros am gael eu dyrannu. Mae gan y gwaith o

gefnogi plant i aros yn ddiogel yn eu teuluoedd y potensial i leihau pwysau ar ddarpariaeth gofal, ynghyd â'r costau a'r gofynion adnoddau cysylltiedig. Er ei bod yn anodd pennu beth a fyddai wedi digwydd pe na bai'r ymyrraeth yno, mae'r gyfradd llwyddiant o 95% yn ddangosydd rhifiadol pwysig, yn enwedig wrth ei hystyried ochr yn ochr ag adroddiadau ansoddol y sawl a gymerodd ran.

> ***"A gafodd y plant y buom ni'n ymwneud â nhw eu hatal rhag dod i ofal? Yn sicr, bu i rai ohonyn nhw, do. Felly, bu i ni gadw'r niferoedd yn is nag y bydden nhw wedi bod fel arall o ganlyniad i'r prosiect hwn." (LASL1)***

Mae'r adlewyrchiadau hynod gadarnhaol gan blant, rhieni, Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd, gweithwyr cymdeithasol, Uwch-arweinwyr Awdurdodau Lleol a staff o'r Rhwydwaith Maethu yng Nghymru yn awgrymu bod elfennau cyfunol y rhaglen wedi gwneud cyfraniad pwysig at y gwaith o gefnogi teuluoedd. Bu iddynt gyfrannu at y broses o sicrhau bod plant yn aros yn ddiogel yn eu teuluoedd, neu'n dychwelyd iddynt, a galluogi rhieni a phlant i feithrin gwybodaeth, sgiliau a hyder, a datblygu perthnasoedd cefnogol a datblygu cysylltiadau cryfach â'u cymunedau. Mae'n bwysig nodi bod y rhieni priodoli'n uniongyrchol y ffaith fod plant yn aros yn ddiogel yn eu gofal, neu'n dychwelyd i'w gofal, i'r gefnogaeth a gawsant trwy'r cynllun Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl. Cafodd datblygiad perthnasoedd parhaol ymhlith rhieni, plant, Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd a theuluoedd eraill sy'n cymryd rhan yn y cynllun ei ddisgrifio'n gyson fel "llinyn aur" y rhaglen, gan gefnogi newid cynaliadwy y tu hwnt i'r cyfnod o ymyrraeth ffurfiol.

> ***"A 'nawr, dydw i ddim yn edrych yn ôl, dw i'n dal i edrych ymlaen. Doedd gen i neb i droi ato, ond roedd Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl wedi fy helpu trwy hynny, ac maen nhw'n dal i fod yno ... Ond dw i'n gwybod hebddyn nhw... fyddai [merch] ddim wedi bod yma. Byddai [merch] wedi mynd, oherwydd allwn i ddim ymdopi â hi. Ond gyda'r gefnogaeth ac ati, mae hi wedi newid." (P6)***

Roedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd trwy'r gwerthusiad hwn hefyd wedi llywio argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus a gweithrediad ehangach y cynllun Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yng Nghymru. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar dri maes: cryfhau'r sail dystiolaeth trwy werthusiad a dadansoddiad economaidd pellach; cefnogi buddsoddiad polisi parhaus mewn gwasanaethau ataliol ac ar ffiniau gofal; a mireinio'r gwaith o ddarparu rhaglenni i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o gynllun peilot Sir Benfro wrth gynnal egwyddorion perthynol craidd y model.

Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli cam cyntaf y gwerthusiad annibynnol o gynlluniau peilot Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yng Nghymru. Bydd y gwerthusiad yn parhau i archwilio gweithrediad a chanlyniadau'r rhaglen ym Mhowys, gan ddarparu rhagor o dystiolaeth i lywio datblygiad y cynllun yng Nghymru yn y dyfodol.

Cyfeirnodau

Mannay, D., Roberts, L., Stevenson, S. a Baker, E. 2026. *An Evaluation of the Step Up Step Down Pilot Programme in Pembrokeshire*: Caerdydd: CASCADE Ar gael yn – https://cascadewales.org/cy/research/camu-ir-adwy-cyn-camu-yn-ol/



Awduron a Chyfranwyr

Dr Louise Roberts, Athro Dawn Mannay, Sylvia Stevenson, Emily Baker, Rhiannon Evans, Ffion Roberts, ac Alyson Rees

Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), Prifysgol Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a Gofodol (SOSSS), Prifysgol Caerdydd

I gael rhagor o wybodaeth, dyma'r manylion cyswllt:

Parc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol (SBARC) – Prifysgol Caerdydd
Heol y Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

CASCADE@caerdydd.ac.uk